Gwir Lais | Therapi lleferydd ac iaith yn trawsnewid bywydau™

COLEG BRENHINOL THERAPYDDION IAITH A LLEFERYDD

# Gwerth economaidd therapi lleferydd ac iaith

Mae therapi lleferydd ac iaith yn darparu triniaeth sy'n newid bywydau, a chymorth a gofal i blant ac oedolion sy'n cael anawsterau cyfathrebu, bwyta, yfed neu lyncu. O blant sy'n cael eu geni gyda gwefus a thafod hollt i bobl hŷn gyda dementia, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cefnogi unigolion ym mhob cyfnod bywyd.

Mae'r asesiad, cyngor a thriniaeth arbenigol sy'n cael eu rhoi gan therapyddion lleferydd ac iaith yn creu arbedion ariannol i wasanaethau'r GIG ac yn cynhyrchu canlyniadau gwell i gleifion.[1] Gwnaeth asesiad economaidd o werth therapi lleferydd ac iaith, a gynhaliwyd gan Matrix Evidence (cwmni o ymgynghorwyr yn arbenigol mewn elw cymdeithasol ar astudiaethau buddsoddi) y canfyddiadau canlynol:



## Dysffagia (problemau llyncu) yn dilyn strôc

- **Mae pob £1** a fuddsoddir mewn therapi lleferydd ac iaith dwys yn cynhyrchu **£2.3** o arbedion mewn cost gofal iechyd trwy osgoi achosion o heintiau ar y frest.
- Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn asesu a rheoli anawsterau goroeswyr strôc wrth lyncu bwyd a hylif, a all achosi canlyniadau difrifol, gan gynnwys tagu, diffyg maethiad, a marwolaeth. Mae tua **63,000** o oedolion bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig yn cael dysffagia wedi strôc sydd angen therapi lleferydd ac iaith.
- Mae'r amcangyfrif o fudd net blynyddol therapi lleferydd ac iaith yn **£11.2M yn Lloegr, £0.7M yng Nghymru, £0.4M yng Ngogledd Iwerddon** a **£1.1M yn yr Alban**.[2]

## Asffasia (problemau cyfathrebu) yn dilyn strôc

- **Mae pob £1** a fuddsoddir mewn therapi lleferydd ac iaith dwys yn sicrhau **£1.3** o arbedion mewn cost gofal iechyd oherwydd y budd ariannol yn gysylltiedig gyda gostwng symptomau asffasia yn arwain at wella iechyd a gallu i gyflawni gweithgareddau bob dydd.
- Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn asesu yn cefnogi goroeswyr strôc i gryfhau ac adennill eu galluoedd iaith a dysgu cyfathrebu eraill. Mae tua **53,000** o oedolion bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig yn cael affasia wedi strôc sydd angen therapi lleferydd ac iaith.
- Mae'r amcangyfrif o fudd net blynyddol therapi lleferydd ac iaith yn **£13.0M yn Lloegr, £0.7M yng Nghymru, £0.4M yng Ngogledd Iwerddon** a **£1.3M yn yr Alban**.[3]

## Amhariad lleferydd ac iaith (SLI)

- **Mae pob £1** a fuddsoddir ar wella therapi lleferydd ac iaith yn sicrhau **£6.43** trwy gynyddu enillion gydol oes, oherwydd bod gwella iaith yn hwyluso mynediad i'r cwricwlwm ac yn creu cyfle i gyflawni mwy a'r gallu i ennill mwy yn ystod oes.
- Mae gan tua **203,000 o blant** rhwng chwech a 10 oed yn y Deyrnas Unedig SLI sydd angen therapi lleferydd ac iaith.
- Amcangyfrifir fod y budd net blynyddol yn **£623.4M yn Lloegr, £36.1M yng Nghymru, £24.2M yng Ngogledd Iwerddon** a **£58M yn yr Alban**.[4]

## Awtistiaeth

- **Mae pob £1** a fuddsoddir ar wella therapi iaith a lleferydd yn sicrhau **£1.46** o arbedion gydol oes trwy wella cyfathrebu, fel lleihau'r defnydd o wasanaeth a chynyddu lefelau byw'n annibynnol fel oedolion.
- Bob blwyddyn mae gan oddeutu **8,800 o blant** rhwng dwy a phedair oed yn y Deyrnas Unedig awtistiaeth graidd, sydd angen therapi lleferydd ac iaith.
- Amcangyfrifir fod y budd net blynyddol yn **£8.3M yn Lloegr, £0.4M yng Nghymru, £0.3M yng Ngogledd Iwerddon a £0.8M yn yr Alban**.[5]



## Cymorth cyfathrebu cynyddol ac amgen (AAC)

Mae offer dadansoddi cost a budd hefyd yn dangos manteision darparu cymhorthion cyfathrebu cynyddol ac amgen (offer uwch-dechnoleg sy'n helpu cyfathrebu) i blant gydag anhwylder sbectrwm awtistig a pharlys yr ymennydd. Yn seiliedig ar ragosodiad o ragdybiaethau ac yn gymwysedig i boblogaeth yr Alban.

- **Mae pob £1** a fuddsoddir mewn AAC technoleg uchel ar gyfer plant gydag awtistiaeth yn sicrhau **£1.79** - cyfwerth ariannol â'r budd a sicrheir yn nhermau blynyddoedd bywyd wedi cymhwyso am ansawdd
- **Mae pob £1** a fuddsoddir mewn AAC technoleg uchel ar gyfer plant gyda pharlys yr ymenydd yn cynhyrchu **£1.23** - cyfwerth ariannol â'r budd a sicrheir yn nhermau blynyddoedd bywyd wedi cymhwyso am ansawdd

## Cymorth therapi lleferydd ac iaith ar waith: gofal brys ac argyfwng

Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gofal cleifion mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys addysg, y GIG, y sector gwirfoddol a phractis preifat. Mae ymchwil hefyd yn dangos y rôl bwysig sydd ganddyn nhw mewn cyflenwi gofal brys ac argyfwng effeithiol. Fel y dengys astudiaeth achos Ymddiriedolaeth GIG Sandwell a Gorllewin Birmingham, isod, mae sgiliau arbenigol therapyddion lleferydd ac iaith mewn wrth asesu, gwneud diagnosis a chefnogi yn gallu arbed costau damweiniau ac achosion brys a gwella canlyniadau i gleifion.

## Astudiaeth Achos: Ymddiriedolaeth GIG Sandwell a Gorllewin Birmingham

Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn chwarae rhan hanfodol yn 'nhîm therapi ymateb cyflym' yr ymddiriedolaeth. Maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill cysylltiedig ac yn mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys i:

- Atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, trwy wasanaeth ymateb uchel sy'n asesu anghenion cleifion **12 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.**
- Cydweithredu gyda chydweithwyr gwaith cymdeithasol i helpu'r claf i ddychwelyd adref.
- Cyflenwi asesiad therapi lleferydd ac iaith ar unwaith i sicrhau y bydd llyncu cleifion yn cael ei reoli yn eu cartrefi gan staff cymunedol.

Mae therapyddion lleferydd ac iaith wedi helpu i leihau costau a gwella canlyniadau i gleifion yn yr Ymddiriedolaeth, trwy ddarparu therapi lleferydd ac iaith dwys i sicrhau fod cleifion yn dechrau bwyta ac yfed cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae hyn yn osgoi bwydo trwy diwb ac yn caniatáu i gleifion ddychwelyd adref yn gynt ac yn fwy diogel gyda chymorth cymunedol. Fel rhan o'r dull gofal integredig, mae therapyddion lleferydd ac iaith hefyd yn gweithio'n agos gyda'r timoedd rhyddhau a thimoedd cymunedol i sicrhau fod cleifion yn cael eu dynodi fel rhai dan risg o fynd yn ôl i'r ysbyty ac yn derbyn cymorth addas yn eu cartrefi.

Mae Gwasanaeth Gofal Integredig yr ymddiriedolaeth wedi helpu i liniaru pwysau'r gaeaf ar wasanaethau Damwain ac Achosion Brys a chreu arbedion costau a gwell canlyniadau i gleifion. Mae'r ymddiriedolaeth wedi gweld lleihad o **2,478** y flwyddyn yn y niferoedd sy'n cael eu derbyn i ysbytai, lleihau hyd arhosiadau ysbyty o 10 diwrnod i saith niwrnod, ac arbed tua **17,000** o ddyddiau gwely, sydd â'r gallu i arbed mwy na **£7 miliwn** o gostau.

## CYFEIRNODAU AC ADNODDAU


**1** Matrix Evidence. An economic evaluation of speech and language therapy. Final Report: December 2010. http://www.rcslt.org/giving_voice/matrix_report

**2** Ibid.

**3** Ibid.

**4** Ibid.

**5** Ibid.

**6** Ibid.


I gael mwy o wybodaeth am Goleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith ewch i: **www.rcslt.org**